coeliac uk
live well gluten free
byw'n dda yn rhydd o glwten

# Grŵp Trawsbleidiol ar Glefyd Seliag a Dermatitis Herpetiformis
# Cross Party Group on Coeliac Disease & Dermatitis Herpetiformis

Dyddiad ac amser: Dydd Mercher 29 Tachwedd 2023, 11.00-12.00
Lleoliad: Zoom

*Yn bresennol: Rhun ap Iorwerth – Cadeirydd (RaI), Tristan Humphreys – Ysgrifennydd/Coeliac UK (TH), Fiona Newsome (FN), Gwawr James (GJ), Ian Severn (IS), Sian Evans (SE), Alison Jones (AJ)*

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb:**<br><br>Richard Cousins, Geraint Preest, Ellie Wilson, Llyr Gruffydd |
| 2 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**<br><br>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf. |
| 3 | **Cyfarfod cyffredinol blynyddol**<br><br>a. Ethol swyddogion<br><br>Cafodd RaI ei ailethol yn Gadeirydd y grŵp (cafodd ei enwebu drwy ddirprwy, ar lafar a thrwy e-bost – Mark Isherwood, Mark Hedges, Peredur Owen-Griffiths).<br><br>Cafodd TH o Coeliac UK (CUK) ei ailethol yn ysgrifennydd y grŵp (cafodd ei enwebu gan Mark Isherwood, Mark Hedges, Peredur Owen-Griffiths a RaI).<br><br>b. Cymeradwyo'r Datganiad Ariannol<br><br>Bydd y datganiad ariannol yn cael ei gymeradwyo yn dilyn cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol. |
| 4 | **Achos o farwolaeth yn gysylltiedig â bwyd ysbyty**<br><br>Rhoddodd TH air o gefndir am Hazel Pearson, claf â chlefyd coeliag a fu farw o niwmonia allsugnol yn Ysbyty Maelor Wrecsam ar ôl iddi gael Weetabix. Mynegodd TH ei sioc, a rhoddodd drosolwg o'r dyfarniad: methiant aruthrol, systemau annigonol ar waith. Darparodd CUK a RaI ddatganiadau i'r BBC a chyfryngau newyddion eraill. Beirniadodd CUK y ddarpariaeth annigonol o fwyd priodol ar gyfer pobl â chlefyd coeliag mewn ysbytai. Eglurodd TH fod CUK yn bwriadu ysgrifennu at y Llywodraeth a'r Gweinidogion perthnasol, yn ogystal â phob bwrdd iechyd yng Nghymru, pob ymddiriedolaeth yn yr Alban a phob bwrdd gofal integredig yn Lloegr. Awgrymodd TH fod y Grŵp Trawsbleidiol yn ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| | Mynegodd RaI dristwch ynglŷn â marwolaeth Hazel Pearson – marwolaeth yr oedd modd ei osgoi. Cytunodd RaI y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol ysgrifennu at y Llywodraeth ar y mater hwn, gan ofyn am awgrymiadau ynghylch elfennau penodol y byddai modd eu cynnwys.<br><br>Soniodd IS am bwysigrwydd ymwybyddiaeth a hyfforddiant, a soniodd hefyd am y cyfyngiadau o ran yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant, sef y rhwystr mwyaf yn y maes hwn. Dywedodd RaI fod angen ysgrifennu'r llythyr dan sylw ar frys. |
| 5 | **Cynllun cymhorthdal bwydydd heb glwten yng Nghymru**<br><br>Rhoddodd TH ddiweddariad ar y broses o gyflwyno'r cynllun cymhorthdal bwydydd heb glwten – cynllun sydd ar gael yn ardal Hywel Dda yn unig ar hyn o bryd. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG wedi cymryd yr awenau o ran cynnal y cynllun cymhorthdal. Cynhaliwyd cyfarfod o'r bwrdd cyflawni ym mis Medi. Yn ystod y cyfarfod, daeth yn amlwg bod llawer mwy o waith y mae angen ei wneud yn ganolog er mwyn cynyddu lefelau ymrwymiad ymhlith y byrddau iechyd. Roedd llawer o gwestiynau heb eu hateb. Siaradodd CUK â'r dirprwy brif fferyllydd, a dywedwyd wrth y sefydliad fod y broses o gyflwyno'r cynllun wedi'i hoedi hyd nes bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud mwy o waith ar y mater. Dywedodd TH fod trafodaethau'n mynd rhagddynt am ymchwil parhaus i effaith y cynllun yn ardal Hywel Dda. Byddai CUK yn awyddus i ymgysylltu, ond nid oedd ganddo unrhyw wybodaeth am amserlenni.<br><br>Gofynnodd RaI am farn aelodau'r grŵp ynghylch pryd y byddai'n briodol ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r mater hwn. Cynigiodd TH anfon e-bost at y Llywodraeth, yn dilyn cyfarfod CUK â'r Llywodraeth ym mis Hydref. Dywedodd y byddai'n sôn am y ffaith y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn cysylltu maes o law. Dywedodd RaI ei fod yn cytuno â hynny.<br><br>Ychwanegodd ID ei fod yn clywed yn rheolaidd gan rieni plant sydd â chlefyd coeliag, a bod llawer ohonynt yn cael trafferth gyda chostau bwydydd heb glwten. Dywedodd ei bod yn bwysig sicrhau bod diet heb glwten yn cael ei weld fel unrhyw feddyginiaeth arall. Roedd ID o'r farn y dylai'r cardiau cysylltiedig gael mwy o arian arnynt. Dywedodd AJ y gallai'r costau sy'n cael eu harbed mewn perthynas â'r cerdyn greu capasiti i ddyrannu mwy o arian ar gyfer y cymhorthdal, tra'n parhau i arbed arian. |
| 6 | **Gweithgarwch Seneddol**<br><br>Rhoddodd FN ddiweddariad ar ymchwiliad y Grŵp Seneddol Hollbleidiol (APPG) i'r broses o gael diagnosis ar gyfer clefyd coeliag, a'r cam o lansio'r adroddiad cysylltiedig. Diolchodd i'r rhai a oedd wedi cyfrannu at y sesiynau tystiolaeth. Cafodd yr adroddiad ei rannu â rhanddeiliaid allweddol a gwleidyddion. Mae strategaeth ymgysylltu hirdymor wedi'i llunio. Soniodd TH fod y pwyntiau ac argymhellion allweddol yn deillio o'r adroddiad yn berthnasol ar draws y DU. Dywedodd ID ei fod wedi cyfrannu at yr adroddiad, gan nodi ei fod yn fodlon gyda'r canlyniadau. Serch hynny, roedd yn meddwl tybed pa effaith y gallai'r adroddiad ei chael os nad yw safonau ansawdd NICE yn gallu helpu gyda'r problemau sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran diagnosis ac amseroedd aros. Eglurodd TH natur y rhaglen ymgysylltu a'r nod o feithrin hyrwyddwyr o fewn y Senedd ac o fewn y gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| 7 | **Datblygu Llwybr Diagnosis**<br><br>Rhoddodd TH ddiweddariad i'r grŵp ar y llwybr gastro ym maes gofal sylfaenol, sydd wedi'i ddatblygu gan weithgor o glinigwyr, gan gynnwys Crohn's & Colitis UK, GUTS, Rhwydwaith IBS, ac elusennau mawr eraill. Disgwylir i'r llwybr gael ei gyflwyno yn nhymor y gwanwyn 2024. |
| 8 | **Diweddariad ynghylch cost, mynediad ac argaeledd**<br><br>Rhoddodd TH ddiweddariad ar ymgyrch CUK ynghylch costau. Soniodd y byddai ail adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2024, a fyddai'n cynnwys data gwyddoniaeth dinasyddion ar argaeledd bwyd heb glwten mewn archfarchnadoedd. Soniodd hefyd y byddai'r ffocws yn symud i ymgysylltu â manwerthwyr. Bydd mwy o weithgarwch ym maes materion cyhoeddus yn cael ei gynllunio ar gyfer tymor y gwanwyn 2024. |
| 9 | **Dyfodol y Grŵp**<br><br>Presenoldeb Aelodau o'r Senedd – gofynnodd TH beth allai'r grŵp ei wneud i ymgysylltu â mwy o Aelodau yn y Senedd er mwyn sicrhau bod y grŵp mor gynaliadwy â phosibl.<br><br>Gwnaeth RaI gyfaddef bod llawer o'r Aelodau o dan gryn bwysau yn sgil maint y Senedd, ond rhoddodd sicrwydd i'r grŵp fod ganddo gefnogaeth ehangach o fewn y Senedd. Awgrymodd RaI y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol gynnal sesiwn galw heibio yn y Senedd, lle gallai nifer o grwpiau gynnal sesiynau ar yr un pryd, gan roi cyfle i Aelodau alw draw. Byddai modd ei gynnal tua'r un amser â chyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol.<br><br>Soniodd TH fod CUK yn bwriadu cynnal mis ymwybyddiaeth, yn hytrach nag wythnos ymwybyddiaeth, sy'n golygu y bydd modd i'r sefydliad gael presenoldeb mwy yn y gwahanol Seneddau. |
| 9 | **Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol**<br><br>Dywedodd RaI y byddai dyddiad yn cael ei rannu yn agosach at yr amser, a gofynnodd i aelodau'r grŵp wahodd pobl a allai fod o werth i'r grŵp. |

| Camau i'w cymryd | Aelod |
|---|---|
| Rhannu'r cofnodion a'r dyddiadau posibl ar gyfer y cyfarfod nesaf | FN/TH |
| Ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru ynghylch bwyd ysbyty | TH/RaI |
| Cymryd camau dilynol â Llywodraeth Cymru ynghylch y Cynllun Cymhorthdal Bwydydd Heb Glwten | FN/TH |
| | |
| | |